# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2014** |
| Amser: | **09.02 – 10.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_17_06_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-558 GWAHARDD E-SIGARÉTS I BOBL IFANC O DAN 18 OED

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn ei farn am y ddeiseb; a'r
- deisebydd, gan dynnu sylw at ddatganiad diweddar y Gweinidog ar y mater.

**2.2P-04-559 Ymwybyddiaeth mewn Ysgolion Uwchradd o Hunan-niweidio**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- pob Bwrdd Iechyd Lleol; a
- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

**2.3P-04-560 Gwasanaethau Clefyd Llid y Coluddyn yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- phob Bwrdd Iechyd Lleol

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

**2.4P-04-561 Hyrwyddo rygbi ar lawr gwlad yng Nghymru i annog pobl i gymryd rhan**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon; ac
- Undeb Rygbi Cymru

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

**2.5P-04-562 Canolfan Etifeddiaeth Caernarfon**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon; ac
- Chyngor Gwynedd

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

### 2.6P-04-563 Y ddarpariaeth o wasanaethau yng ngorsaf dân Pontypridd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth; a
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

i ofyn eu barn am y ddeiseb. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o awyddus i glywed barn y Gweinidog ar sut y byddai argymhellion adolygiad Williams o lywodraeth leol yn effeithio ar Awdurdodau Tân.

### 2.7P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn ei farn am y ddeiseb; a
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

### 2.8P-04-565 Adfywio hen reilffyrdd segur at ddibenion hamdden.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

### 2.9P-04-566 Adolygu'r Cod Derbyn i Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Addysg a Sgiliau; a

- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

i ofyn eu barn am y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-536 Rhoi'r Gorau i Ffatrïoedd Ffermio Gwartheg Godro yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y nodyn briffio cyfreithiol ynghylch y ddeiseb a chytunodd i drafod y ddeiseb ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### 3.2 P-04-530 Labelu Dwyieithog

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- i gau'r ddeiseb am ei bod yn glir na all y Gweinidog gydymffurfio â'r hyn y mae'r deisebydd yn gofyn amdano; ac

- wrth wneud hynny, i dynnu sylw Aelodau Senedd Ewrop o Gymru at y ddeiseb.

### 3.3 P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog, yn unol â chais y deisebydd, i ofyn a ellir:

- gwahodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru i drefnu bod un o'i chynrychiolwyr yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y mae'r Dirprwy Weinidog wrthi'n ei ffurfio; a

- sicrhau bod adroddiad ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu cyhoeddi maes o law.

### 3.4 P-04-397 Cyflog Byw

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

ysgrifennu at y Gweinidog gan ofyn am sicrwydd y caiff y mater ei drafod yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a drefnwyd ar gyfer mis Medi; ac
aros am ganlyniad y cyfarfod hwn.

### 3.5P-04-373 Parthau Gwaharddedig o Amgylch Ysgolion ar gyfer Faniau Symudol sy'n Gwerthu Bwyd Poeth

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am ymateb gan y deisebydd i lythyr y Gweinidog; ac
- aros am y wybodaeth bellach a addawyd gan y Gweinidog.

### 3.6P-04-496 Ysgolion pob oed

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan na fu'r deisebydd mewn cysylltiad ers cryn amser.

### 3.7P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog am ei ymateb i'r ddau argymhelliad a wnaed gan y deisebwyr ynghylch cefnogi'r 'nod barcud'; a
- gofyn i Achub y Plant ymateb i lythyr gwreiddiol y Pwyllgor.

### 3.8P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog, gan anfon copi o ohebiaeth ddiweddar y deisebydd;
- Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan dynnu sylw at y ddeiseb; a'r
- rhanddeiliaid canlynol i ofyn eu barn am y ddeiseb:
    - Cyngres Undebau Llafur Cymru;
    - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a
    - Llywodraethwyr Cymru.

### 3.9P-04-538 Cynnwys darlithwyr i sicrhau Fframwaith Arolygu Addysg Bellach sy'n addas at y diben

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Arolygydd Ysgolion, yn gofyn ei barn am ohebiaeth y deisebydd.